# WILLIAM, THOMAS (1761 - 1844), gweinidog Annibynnol ac emynydd

**Enw:** Thomas William
**Dyddiad geni:** 1761
**Dyddiad marw:** 1844
**Priod:** Jane William (née Morgan)
**Rhiant:** Margaret William
**Rhiant:** Richard William
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol ac emynydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 1 Mawrth 1761, yn Nhrerhedyn, Pendeulwyn, Sir Forgannwg, mab Richard a Margaret William. Ymunodd yn ieuanc â'r Methodistiaid yn Nhre-hyl a daeth o dan ddylanwad David Jones, Llan-gan. Cefnodd ar y Methodistiaid ar ôl diarddeliad Peter Williams yn 1791, a dechreuodd ef ac eraill achos crefyddol yn y Britwn, ger Aberddawen. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn yr un dull â David Williams, Aberthyn a Morgan John Lewis, a chodwyd capel Bethesda, Llanilltud Fawr, ganddo ef a'i braidd yn 1806. Derbyniwyd yr eglwys gan gymanfa'r Annibynwyr yn 1814 a bu yntau yn weinidog arni weddill ei oes. Priododd yn 1790 â Jane Morgan o'r Brewis, a buont yn byw yn Ffonmon ac yn Nhrefflemin yn ddiweddarach. Bu farw 23 Tachwedd 1844, a chladdwyd ef wrth fur Bethesda'r Fro. Y mae ei safle fel emynydd yn sicr, a chenir ei emynau pruddglwyfus (megis 'Adenydd fel c'lomen pe cawn,' etc.) gan yr holl enwadau. Cyhoeddodd i ddechrau *Elegia* (Trefecca, 1785), sy'n cynnwys marwnad ac emynau, a dau gasgliad bychan, sef *Llais y Durtur yn y Wlad* (Merthyr, 1812), a *Perl mewn Adfyd* (Merthyr, 1814). Y mae llawer o'u cynnwys yn ei gasgliad llawnach, *Dyfroedd Bethesda* (Caerdydd, 1824, ail arg. Merthyr, 1841). Ceir ychydig o emynau hefyd yn *The Tear of Friendship* (Caerdydd, 1817). Marwnad i Jones, Llan-gan, yw cynnwys y llyfryn olaf; canodd nifer o farwnadau eraill, megis honno i Peter Williams (Caerfyrddin, 1796), ac i'w briod, *Cwyn yr Unig* (Caerdydd, 1828). Y mae ei gân goffa enwog i John Williams, Sain Tathan, yn *Dyfroedd Bethesda*. Cyhoeddwyd casgliad o'i weithiau a chofiant gan Thomas Rees, Abertawe, yn 1882.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


Thomas Williams, T. Rees, *Gweithiau prydyddol y Parch. Thomas Williams, Bethesda, y Fro yn nghyd a hanes ei fywyd* (Abertawe 1882)

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 233-41

*Y Traethodydd*, 1873, 469

*Undeb yr Annibynwyr Cymreig ... Llawlyfr Cyfarfodydd ... Barri* (1924), 55-63

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 76117598

Wikidata: Q20758210


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.